

BWLETIN POLISI CYTÛN

CHWEFROR 2015



ETHOLIAD 2015 - GWELEDIGAETH 2020

Mae ein cymdeithas yn wynebu heriau sylfaenol – twf mewn tlodi ac anghydraddoldeb, cynnydd mewn costau byw, ac argyfwng hinsawdd yn bygwth. Nid yw'r un o'r rhain yn newydd, ond bydd gwaith anodd a phenderfyniadau allweddol yn wynebu pwy bynnag fydd yn llywodraethu nesaf. Bydd yr hyn a wnânt yn y pen draw yn lliwio pa fath o gymdeithas fydd gennym.

Mae Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) wedi cyhoeddi **Gweledigaeth 2020**, sy'n deillio o ddymuniad pawb ohonom i weld cymdeithas sydd yn gweithio ar gyfer pawb – sy'n gwerthfawrogi pob un ac yn parhau'r Ddaear. Yn y bôn – cymdeithas er lles pawb. Mae Gweledigaeth 2020 yn canolbwyntio ar bum prif faes – cyfoeth ac anghydraddoldeb, y cartref, plant a phobl ifanc, bywoliaeth, a'r amgylchedd a'r hinsawdd. Nid y rhain yw unig faterion sylfaenol y dydd ond meysydd ydynt lle teimlwn fod gan yr eglwys rywbeth penodol i'w gyfrannu heddiw.

Gallwch ddarllen y weledigaeth yn Gymraeg ar [wefan CTBI](#), lle ceir hefyd argraffiad Saesneg a chrynodebau yn y ddwy iaith.



Mae **Cymorth Cristnogol** wedi amlinellu eu **Cyfamod gyda Thlodion y Byd**:

<http://www.christianaid.org.uk/Images/manifesto-leaflet-September-2014.pdf> a mae ganddynt ddeiseb yn gofyn am [Fil i atal osgoi trethi](#).

Mae holl adnoddau'r eglwys at yr etholiad ar gael ar wefan arbennig CTBI:

www.churcheselection.org.uk Fe gewch yno hefyd gyfarwyddyd manwl ar sut i drefnu cyfarfod gydag ymgeiswyr eich etholaeth chi. Croeso i chi hefyd cysylltu â Cytûn am ragor o wybodaeth.

Dylai eglwys lleol sy'n ystyried ymgyrchu am faterion dadleuol adeg yr etholiad ddarllen arweiniad yr Eglwys Fethodistaidd am y Ddeddf Lobïo, sydd ar gael ar y we [fan hyn](#).

Gallwch weld ceisiadau maniffesto mudiadau a chymdeithasau lu ledled Prydain ar:

<http://centrallobby.politicshome.com>

CYNLLUNIO YMLAEN: NEWIDIADAU I GYFRAITH PRIODAS

O 2 Mawrth 2015 bydd y cyfnod rhybudd ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil yn cael ei ymestyn o 15 diwrnod i **28 diwrnod** ar gyfer pob cwpwl sy'n priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil yng Nghymru neu Loegr ar ôl rhoi rhybudd sifil. *Mae hyn yn cynnwys priodi mewn eglwys Anghydfurfiol gyda 'Pherson Awdurdodedig'*. Lle mae un sydd am briodi yn Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru yn dod o'r tu allan i Barth Economaidd Ewrop (EEA) fe fydd angen i'r unigolyn roi rhybudd sifil mewn swyddfa gofrestru. Mae hyn yn drefn newydd dan yr amgylchiadau hyn.

Fe fydd pob priodas a phartneriaeth sifil arfaethedig sy'n cynnwys unigolyn o'r tu allan i'r EEA sydd heb statws mewn fudo i'r DU neu â statws cyfyng yn cael ei gyfeirio i'r Swyddfa Gartref, fydd yn gallu ymestyn y cyfnod rhybudd hyd at **70 diwrnod** er mwyn ymchwilio. *Ni fydd y sawl sy'n rhoi rhybudd o briodas neu bartneriaeth sifil cyn 2 Mawrth 2015 yn cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn*. Fe fydd trefniadau dros dro hefyd ar gyfer cyplau sydd erbyn y dyddiad hwnnw wedi derbyn, neu geisio am, drwydded gyffredin i briodi yn Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru.



BIL LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU)

Mae'r Bil arloesol hwn yn cynnig cyfle arbennig i basio cyfraith newydd er mwyn sicrhau bod y sector gyhoeddus ddatganoledig yng Nghymru yn gwneud popeth, o fewn ei gallu, i gael cyfiawnder cymdeithasol ac amddiffyn yr amgylchedd er lles pobl a byd natur yng Nghymru, a thu hwnt – nid yn unig yn y genhedlaeth hon, ond – fel y mae'r teitl yn

awgrymu – yn y dyfodol hefyd. Fe fyddai Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy statudol annibynnol yn arolygu ymlyniad cyrff cyhoeddus wrth yr egwyddorion hyn. Mae yna 'Sgwrs Genedlaethol' eang wedi bod yn digwydd dan yr enw [Y Cymru a Garem](#). Bydd adroddiad peilot [Cenedlaethau'r Dyfodol](#) yn cael ei lansio yn Stadiwm SWALEC ar 2il Mawrth ac yn Venue Cymru, Llandudno ar 6ed Mawrth. Gellir bwcio tocynnau trwy [Eventbrite](#).

Mae cynghrair o fudiadau, y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy – sy'n cynnwys Cymorth Cristnogol, CAFOD, Tearfund, Masnach Deg Cymru ac eraill -yn dadlau fod gan y Bil y potensial i sicrhau bod Cymru yn ymrwymo o ddifrif i fynd i'r afael â newid hinsawdd, yn blaenoriaethu gwariant moesegol a Masnach Deg ac yn ymroi i daclo tloidi byd-eang. Ond er mwyn cyflawni hyn, maent yn dadlau fod angen i'r Bil fod yn gryfach ac yn fwy penodol. Mae rhai o'r mudiadau yn y gynghrair wedi galw hefyd am gynnwys nodau diwylliannol yn y Bil, yn enwedig parthed yr iaith Gymraeg. Gallwch ddarllen mwy yn www.shapingfuturewales.org

Mewn sesiwn faith a manwl ar 5ed Chwefror, bu Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad yn trafod dros 200 o welliannau i'r Bil. Gwelwyd cryn anghytundeb am nodau'r Bil, a gofid gan y gwrthbleidiau fod y Bil ar ei ffurf bresennol yn gosod pwerau mawr yn nwylo gweinidogion Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 5 aelod o blaid y llywodraeth a 5 o'r gwrthbleidiau. Y canlyniad yn fras, felly, oedd i ymgeisiadau'r llywodraeth i gryfhau'r Bil, a hefyd gwelliannau'r gwrthbleidiau, yn ceisio ei gryfhau ymhellach eto, fethu â derbyn mwyafrif. O ganlyniad, y nodau a diffiniadau yn y Bil gwreiddiol – nad oes neb bellach yn hapus â nhw – fydd yn mynd i Gam 3 yn y broses ddeddfu. Bydd angen llawer mwy o drafod i ddod i gytundeb traws-bleidiol ar y materion pwysfawr hyn.

FFRACIO – 'NWY ANGHONFENSIYNOL'

Mae llawer o drafod mewn cymdogaethau am ffracio a sut i'w reoli. Ar hyn o bryd, yn San Steffan y gwneir penderfyniadau am drwyddedu ffracio yng Nghymru, ond mae'n bosibl y bydd hynny'n newid pan fydd Stephen Crabb, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn cyhoeddi camau nesaf datganoli i Gymru ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Yn y cyfamser, fe bleidleisiodd y Cynulliad ar 4ydd Chwefror o blaid [moratoriwm ar ffracio yng Nghymru](#).

Mae Eglwysi Ynghyd yn Sir Gaerhirfyn wedi cyhoeddi deunydd ffeithiol a diwinyddol am ffracio. Nid yw eto ar y we, ond gellir cael copi gan swyddfa Cytûn.

Mae Canolfan y Santes Fair wedi paratoi [gwasanaeth ysgol](#) ar y pwnc gyda lincs defnyddiol.

CYMRU'N COFIO'R RHYFEL BYD CYNTAF YN 2015

Bydd adegau allweddol yn hanes Cymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gan gynnwys Ymgyrch Gallipoli, yn chwarae rhan bwysig yn y digwyddiadau a drefnwyd eleni i gofnodi canmlwyddiant y brwydo. Dyna ddywedodd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, yn ystod ymweliad â'r arddangosfa ar Gadoediad y Nadolig yng Nghastell Bodelwyddan ar 6ed Chwefror. Darllenwch fwy [yma](#).

TRAIS YN ERBYN MENYWOD – CYMRU A'R BYD

Mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn ystyried [Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\)](#) – a alwyd cyn hyn yn Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (newidiwyd yr enw mewn cyfarfod pwyllgor ar 22ain Ionawr).

Bwriad y Bil yw sicrhau ffocws ar draws y sector gyhoeddus ar atal trais o'r fath, gwarchod y sawl sy'n dioddef o'i herwydd a chynnal pobl a effeithir gan hyn. Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau wedi eu hanelu at atal cam-drin yn y cartref, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol. Mae'r Bil hefyd yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru gyhoeddi arweiniad i'r awdurdodau perthnasol ar sut y dylent weithredu er atal trais a cham-drin o'r fath. Mae'r Bil yn caniatáu penodi Cynghorydd i'r Llywodraeth am y materion hyn. Bydd y Bil yn cael ei drafod nesaf mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad ar 3ydd Mawrth 2015.

Ar **Ddydd Mercher 11eg Chwefror am 12-1** (amser gwledydd Prydain) fe fydd aelodau o glymblaid *We Will Speak Out* ac arweinwyr ffydd byd-eang arlein am awr i drafod sut i hybu eglwysi i weithio er rhoi diwedd ar drais rhywiol ac ar sail rhywedd. Gallwch gofrestru ar gyfer y webinar yn <http://view6.workcast.net/register?pak=4190568644793728> – fe gewch wedyn e-bost gyda manylion ar sut i ymrestru. Cliciwch ar y linc ar 11eg Chwefror ac fe gewch ymuno â'r sgwrs yn fyw!

Ymhlith y sawl fydd yn cyflwyno bydd Thérèse Mema Mapenzi, o CAFOD yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, a Mara Luz, o Gymorth Cristnogol ym Mrasil. Fe wahoddir cwestiynau a thrafodaeth am faterion megis torri'r tawelwch am drais rhywiol a thrais ar sail rhywedd, mynd i'r afael â dianc yn ddigerydd a cheisio cyfiawnder, cynnal y sawl sy'n goroesi, a hybu dynion a bechgyn i feddwl am ddelweddau gwrywaidd cadarnhaol. Fe fydd Hyrwyddydd America Ladin a'r Caribî ar ran y Gynghrair Anglicanaidd, Paulo Ueti, yn cyflwyno myfyrdod diwinyddol am gyfiawnder rhwng y rhywiau. Am ragor o wybodaeth gweler <http://anglicanalliance.org/news/19968>

BIL TREFTADAETH NEWYDD AR EI FFORDD – OND NID ETO!

Mewn datganiad ar 20fed Ionawr, cyhoeddodd Ken Skates, y Dirprwy Weinidog Diwylliant a Chwaraeon, y cyhoeddir y Bil Treftadaeth newydd cyn gwyliau'r haf, ac nid ym mis Ebrill fel y dywedwyd yn y Bwletin diwethaf. Gyda'r Bil, fe gyhoeddir hefyd set newydd o arweiniad ar gyfer pawb sy'n gofalu am adeiladau hanesyddol a henebion. Gallwch ddarllen mwy ar [wefan CADW](#).



Mae llawer iawn o asedau treftadaeth Cymru yn nwylo cyrff crefyddol. Unwaith y byddwn yn gwybod union ddyddiad y cyhoeddi, fe fydd Cytûn yn cynnull Swyddogion Eiddo yr enwadau i'w drafod a chytuno ar

ymatebion priodol. Os hoffech fod yn rhan o'r cyfarfod hwn, yna cysylltwch â Gethin (gweler gwaelod tudalen 4 am y manylion).

GWYBODAETH AM Y CYNULLIAD A LLYWODRAETH CYMRU

Gallwch ddarllen ein canllaw am sut i gyrchu gwybodaeth am weithrediadau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru ym [Mwletin Polisi fis Ionawr](#) ar wefan Cytûn.

Cyhoeddir Bwletin Polisi Mawrth 2015 ar 11eg Mawrth.

DATGANOLI, DEMOCRATIAETH A CHYFLAWNI DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn am ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. Nid diwygio ffiniau'r cynghorau yw'r bwriad – fe gyhoeddir rhagor am hynny yn yr haf – ond trafod egwyddorion llywodraeth leol i'r dyfodol. Mae eglwysi a'u haelodau yn ymwneud yn feunyddiol â'u cynghorau lleol, felly dyma gyfle i gyfrannu at y drafodaeth.

Ymhlith y newidiadau a gynigir yn y Papur Gwyn mae:

- Etholiadau i'r cynghorau bob pum mlynedd, yn lle'r pedair presennol
- Uchafswm o bum tymor - 25 mlynedd – ar gyfer cynghorwyr
- Uchafswm o ddau dymor - 10 mlynedd – ar gyfer arweinyddion ac aelodau cabinet y cynghorau
- Talu cynghorwyr yn unol â'r sawl sydd ar gynghorau o faint tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol
- Cyflogwyr y sector gyhoeddus i roi amser rhydd di-dâl i'w gweithwyr i weithredu fel cynghorwyr, ac annog cyflogwyr eraill i wneud yr un fath
- Dyletswydd ar arweinyddion a phrif weithredwyr cynghorau i hybu a pharchu amrywiaeth
- Sefydlu cynghorau ieuenctid gan bob awdurdod

Bydd yr ymghynghoriad cyhoeddus am y papur gwyn - [Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol](#) - yn parhau tan 28 Ebrill.


Mae'r [Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol](#) hefyd yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru), sy'n cau ar 13 Mawrth.

GWELLA'R BWLETIN A HELPU'N GILYDD

Diolch am yr ymateb cadarnhaol i Fwletin mis Ionawr. Ond rwy'n sicr y gallai fod yn well eto pe gallem dynnu ar alluoedd a gwybodaeth ein gilydd.

Fe hoffwn ofyn eto, felly, **a allwn ni helpu ein gilydd**. Fe hoffwn grynhoi rhestr o bobl o fewn yr eglwysi – swyddogion neu aelodau cyffredin – sy'n arbenigwyr yn eu maes, ac a fyddai'n barod i edrych dros ddogfennau mewn maes arbennig pan ddônt i law a gwneud sylwadau arnynt o berspectif Cristnogol. Croesawaf wirfoddolwyr ac enwebiadau!

Yn yr un modd, hoffwn wybod **pwyl o fewn eich Eglwys neu Undeb eglwysi** ddylai fod yn derbyn y Bwletin hwn. Mae ar gael i bawb ar www.cytun.org.uk, wrth gwrs, ond rydym yn barod i e-bostio'n uniongyrchol ond i ni gael gwybod. Fe wnewn hefyd eich dileu o'r rhestr os nad ydych am ei dderbyn bellach – rhowch wybod i mi.



Dyma fy manylion cyswllt ar gyfer hyn a materion eraill:

**Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer
Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales**

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT
Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Happy to communicate in Welsh and English

Dyddiad cyhoeddi: 9 Chwefror 2015.



Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |

Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071 |